



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar ansawdd yr addysg gynradd

yn

Ysgol Gynradd Llanllechid

**Rachub,
Bethesda,
Bangor,
Gwynedd
LL57 3EH**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2010

Rhif yr Ysgol: 661/2069

Dyddiad cyhoeddi:

gan

Wil Williams

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2010: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Ysgol Llanllechid yn gwasanaethu cymunedau gwledig Rachub, Llanllechid ac ardaloedd cyfagos, nid nepell o Bethesda, ger dinas Bangor. Ar hyn o bryd, mae 244 o ddisgyblion llawn amser rhwng 4 ac 11 yn mynychu'r ysgol, ynghyd â 30 o blant tair oed sy'n mynychu pob bore. Mae naw dosbarth gyda phump ohonynt yn rhai cymysg oedran. Daw oddeutu 70 y cant o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith yn bennaf. Mae oddeutu 5 y cant o ddisgyblion o gefndir lleiafrif ethnig. Nid oes yr un disgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Ystyrir i'r ardal fod yn un difreintiedig, gyda chefnidir ac amgylchiadau'r disgyblion yn amrywio'n fawr. Mae oddeutu 21 y cant o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim sydd ychydig yn uwch na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae cyraeddiadau'r plant yn amrywio'n fawr pan gychwynnant yn y dosbarth meithrin ac mae bron pob un ohonynt wedi derbyn addysg cyn oed ysgol ran-amser. Mae oddeutu 21 y cant o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) sydd ychydig yn uwch na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae 2 y cant o'r disgyblion sydd â datganiad statudol o AAA. Nifer fechan iawn o ddisgyblion a waharddwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Yn 2010-2011, roedd y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanllechid yn £3396 sy'n cymharu ag uchafswm o £8442 ac isafswm o £2717 ar gyfer ysgolion cynradd Gwynedd. Gan yr ysgol mae 56^{fed} gyllideb uchaf fesul disgybl o 103 o ysgolion cynradd Gwynedd.

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn natur yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf yn nhymor yr Hydref 2004. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 1997

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Barn gyffredinol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni safonau da;
- mae'r addysgu yn gyson dda gyda pheth addysgu rhagorol;
- mae'r ysgol yn cynnig profiadau dysgu da i bob disgybl; a
- bod pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith.

Rhagolygon gwella

- Mae cyrhaeddiad disgyblion cyfnod allweddol 1 a 2(CA1 a CA2) ym mhynciau craidd Cymraeg, Saesneg (CA2), mathemateg a gwyddoniaeth yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi gwella ac wedi cymharu'n dda ag ysgolion eraill.
- Caiff yr ysgol ei harwain yn fedrus iawn, mae ymdeimlad cryf o bwrpas i'w gwaith a rhoddir blaenoriaeth uchel i godi safonau cyflawniad a gwella'r ddarpariaeth addysgol.

Argymhellion

Mae'r arolygwyr wedi cytuno gyda'r ysgol ar yr argymhelliad canlynol ar gyfer gwella:

A1 gwella amgylchedd yr ysgol y tu allan ar gyfer CA2.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion saith ac un ar ddeg mlwydd oed, fel y mesurwyd gan asesiadau athrawon blynyddol ym mhynciau Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg o safbwynt meincnodau prydau ysgol am ddim a theulu ysgolion.

Yn 2010, mae perfformiad disgyblion CA1 ym mhob dangosydd wedi bod yn yr hanner uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r ganran sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel disgwylidig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn well na'r canran mewn ysgolion tebyg eraill ac yn well na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Yn yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion CA2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y chwarter uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel disgwylidig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn well na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae'r canlyniadau Cymraeg yn gymharus â'r perfformiad cenedlaethol.

Mae perfformiad merched a bechgyn y ddau gyfnod yn y pedwar pwnc cystal, ag yn aml yn well, na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae'r bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da drwy'r Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 1 a 2. Mae llawer o'r rheini sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai llai galluog yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith Gymraeg. Maent yn cyfathrebu'n rhugl gan fynegi barn yn hyderus ac erbyn diwedd CA2, yn darllen gyda dealltwriaeth a mynegiant da. Mae mwyafrif y plant hŷn yn ysgrifennu'n annibynnol gan ddefnyddio ystod geirfa berthnasol a mynegiant amrywiol. Mae medrau meddwl disgyblion yn datblygu'n hynod o dda.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd a TGCh yn llwyddiannus i nifer o bwrpasau megis casglu gwybodaeth a chyflwyno data. Mae gweithgareddau heriol ar lawr y dosbarth yn sicrhau bod llawer ohonynt yn datblygu sgiliau datrys problemau da.

Lles: Da

Mae'r disgyblion yn dweud eu bod yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae bron pob un yn ymddwyn yn dda ac yn arddangos parch a gofal tuag at eraill. O oedran cynnar, maent yn dangos ymglymiad cryf i'r ysgol ac yn fodlon derbyn cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau eu hunain ynghylch eu dysgu. Mae'r cyngor ysgol yn cyflawni ei waith yn effeithiol iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn wynebu heriau newydd yn hyderus.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut gallant gadw'n iach. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud mai ychydig iawn o fwlio neu aflonyddu sy'n digwydd. Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf ychydig yn uwch na'r rhai Cymru gyfan.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion disgyblion, cyflogwyr a'r gymuned yn llwyddiannus. Trwy gynllunio pwrpasol, llwyddir i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn gyson dda ar draws y cwricwlwm. Caiff y Cwricwlwm Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a gwneir defnydd dychmygus o'r ardal leol a'i phobl i ddarparu profiadau a gweithgareddau dysgu ysgogol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu dealltwriaeth a phrofiadau'r disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn rhagorol. Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau gwrth hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal, yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Trwy waith 'Criw'r Ysgol Werdd,' mae'r ysgol yn rhoi sylw da i godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd gwarchod yr amgylchfyd.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ac yn cynnwys rhai enghreifftiau o addysgu rhagorol. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu ac yn cyflwyno gwersi'n fywiog a llawn brwdfrydedd. Caiff gweithgareddau eu cynllunio'n fanwl a phwrpasol ac mae cyfleodd niferus i ddisgyblion drafod a mynegi barn. Ym mhob dosbarth, caiff disgyblion eu hannog i weithio'n annibynnol ac i arfarnu eu dysgu. Mae cyflwyno athroniaeth i ddisgyblion o dan strategaeth addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn elfen ragorol o'r addysgu.

Mae'r trefniadau asesu'n fanwl ac yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i gadw llygaid ar gynnydd disgyblion. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu o ansawdd uchel ac yn un o brif gryfderau'r ysgol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a threfnus sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch ei disgyblion. Mae ganddi strategaethau a gweithdrefnau cynhwysfawr ym mhob agwedd o'r maes.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Yn ystod cyd-addoli ac achlysuron eraill, cânt eu hannog i fyfyrion ar eu bywydau eu hunain a phobl eraill ac i drafod gwerthoedd megis gonestrwydd a pharch. Caiff disgyblion o bob oedran gyfleoedd aml i ysgwyddo cyfrifoldebau a bod yn flaengar ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles disgyblion yn dda a'r gefnogaeth a'r gynhaliaeth a gynigir i ddisgyblion o safon uchel. Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'n hyrwyddo buddion bwyta'n iach, ffitrwydd ac ymarfer corffol rheolaidd, yn effeithiol. Caiff gwaith yr ysgol yn y maes ei gefnogi'n dda gan nifer o wasanaethau arbenigol megis y nyrs ysgol a'r ALL.

Mae'r Llawlyfr Ysgol yn darparu gwybodaeth glir i rieni ynghylch rheolau a disgygliadau'r ysgol. Llwyddir i greu amgylchedd diogel ac ethos cyfeillgar a pharchus. Mae'r staff yn ymateb yn gyflym i unrhyw achosion honedig o aflonyddu neu fwlio.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff eu hanghenion dysgu eu hadnabod yn fuan gan yr athrawon a'r cydlynnydd anghenion arbennig (Cydlynnydd AAA). Trwy asesiadau rheolaidd, cedwir golwg agos ar eu cynnydd a phennir targedau gwella addas ar eu cyfer. Caiff rhieni rôl weithredol yn yr holl brosesau.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, lle caiff disgyblion hawl gyfartal i holl feysydd o ddarpariaeth yr ysgol. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau sy'n cydweddu'n dda ag anghenion y disgyblion. Darparwyd ardal dysgu y tu allan ddiddorol iawn i'r Cyfnod Sylfaen ond nid oes darpariaeth gyffelyb ar gyfer cyfnod allweddol 2. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Caiff yr ysgol eu harwain yn fedrus gan y pennaeth. Mae'n llwyddo i gydlynu ymdrechion staff a llywodraethwyr yn effeithiol ac i roi ymdeimlad cryf o bwrpas i waith yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i godi safonau cyflawniad a gwella'r ddarpariaeth addysgol. Caiff y pennaeth ei chefnogi gan Dîm Rheoli (TRh) gweithgar sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i reolaeth ac arweinyddiaeth strategol yr ysgol.

Mae hon yn ysgol flaengar sy'n cyfrannu'n bwrpasol iawn at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi'u sefydlu'n llwyddiannus yn yr ysgol a thrwy fabwysiadu strategaethau asesu ar gyfer dysgu, rhoddwyd pwyslais sylweddol ar ddatblygu dulliau dysgu ac addysgu cyffroes a gafaelgar.

Mae'r corff llywodraethol (CLI) yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cymryd rhan weithredol yn ei datblygiad. Cânt eu hystyried yn gyfeillion beirniadol i'r ysgol ac maent yn herio'r staff i chwilio am welliannau. Maent yn mynd i'r afael yn ddiymdroi ag unrhyw bryderon a chwynion.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r trefniadau hunan-arfarnu yn gynhwysfawr a grymus ac yn rhan annatod o strategaeth yr ysgol i wella ansawdd a chodi safonau. O dan arweiniad y pennaeth a'r TRh, caiff pob aelod staff ran weithredol yn y broses trwy arfarnu deilliannau a pherfformiad eu hunain. Nodweddion cryf o'r drefn yw'r monitro trylwyr o ddata ar safonau ac ansawdd yr addysg. Trwy holiaduron a dulliau eraill anffurfiol, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion a rhieni i fynegi eu safbwyntiau a chodi materion sydd o bwys iddynt hwy.

Mae proses hunan-arfarnu'r ysgol yn arwain at gynlluniau datblygu manwl a phwrpasol sy'n cael eu gweithredu'n gydwybodol a'u monitro yn erbyn targedau clir a meini prawf llwyddiant penodol. Mae hyn yn arwain at welliant parhaus mewn safonau ac ansawdd. Mae gan yr ysgol hanes da o gynnal a gwella safonau a darpariaeth. Mae ynddi gymuned ddysgu broffesiynol effeithiol sy'n galluogi pob aelod staff i rannu arferion da ac i rwydweithio gyda nifer o ysgolion a phartneriaethau eraill.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio mewn modd strategol gyda nifer eang o bartneriaid i wella safonau a lles disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys y rhieni, ysgolion eraill lleol a fyd-eang, y gymuned, sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon a chyflogwyr lleol. Mae cysylltiadau hynod o effeithiol gyda'r ALI gyda'r ysgol yn cael ei defnyddio'n aml fel enghraifft o arferion dysgu ac addysgu da. Mae'r partneriaethau cynhyrchiol hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at sicrhau ansawdd ar y cyd ac yn ehangu'r ystod o weithgareddau sydd ar gael i ddisgyblion.

Rheoli adnoddau: Da

Caiff staffio ac adnoddau ariannol eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn meddu ar lefelau da o wybodaeth ac arbenigeddau i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r amodau yn y cytundeb cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith Athrawon.' Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) athrawon yn rhagorol. Mae deilliannau'r ysgol yn dda gyda bron pob disgybl yn gweithio i'w lawn botensial. Mae hyn yn sicrhau gwerth da am arian.


Atodiad 1

Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd Cyfnod Allweddol 1


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2010 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 1

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwylidig o leiaf (Lefel 2+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2010	ALI 2010	Cymru 2010	Ysgol 2010	ALI 2010	Cymru 2010	Ysgol 2010	ALI 2010	Cymru 2010
Saesneg	.	50	78	.	50	88	.	50	83
Cymraeg	94	88	87	89	93	93	92	91	90
Mathemateg	94	87	85	78	90	90	88	89	87
Gwyddoniaeth	94	92	88	78	92	92	88	92	90
DPC	88	83	77	78	87	86	85	85	82



Perfformiad yr ysgol dros amser (2006 - 2010)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartzel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

Chwartzel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf

16% neu fwy a hyd at 24% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

Chwartzel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf

Chwartzel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

	Chwartzel 4	Ffin Chwartzel Isaf	Chwartzel 3	Ffin Canolrif	Chwartzel 2	Ffin Chwartzel Uchaf	Chwartzel 1
Saesneg		78		84		91	
Cymraeg		80		92		100	
Mathemateg		82	88	89		96	
Gwyddoniaeth		88		92		100	
DPC		75		83	85	91	

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 2 disgwylidig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf


3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlc ar gyfer y flwyddyn honno.

Diwedd Cyfnod Allweddol 2


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2010 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwylidig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2010	ALI 2010	Cymru 2010	Ysgol 2010	ALI 2010	Cymru 2010	Ysgol 2010	ALI 2010	Cymru 2010
Saesneg	100	83	77	94	90	87	97	87	82
Cymraeg	77	81	76	94	86	86	87	84	81
Mathemateg	92	85	82	94	88	85	93	86	83
Gwyddoniaeth	100	89	84	94	91	89	97	90	86
DPC	92	81	74	94	85	82	93	83	78



Perfformiad yr ysgol dros amser (2006 - 2010)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

- Chwartzel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
- Chwartzel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
- Chwartzel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
- Chwartzel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

16% neu fwy a hyd at 24% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwartzel 4	Ffin Chwartzel Isaf	Chwartzel 3	Ffin Canolrif	Chwartzel 2	Ffin Chwartzel Uchaf	Chwartzel 1
Saesneg		77		83		89	97
Cymraeg		64		82	87	94	
Mathemateg		78		85		91	93
Gwyddoniaeth		82		89		95	97
DPC		73		80		86	93

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwylidig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwch ar gyfer y flwyddyn honno.

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd lawer o'r rhieni'r holiadur gan fynegi barnau cadarnhaol am yr ysgol. Roedd bron pob un yn fodlon gyda'r addysg yn gyffredinol ac yn dweud bod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r bron pob un yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod amrywiaeth dda o weithgareddau ar gyfer eu plant.

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwodd lawer o ddysgwyr yr holiadur. Mae pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwneud yn dda yn eu gwaith. Mae bron pob un yn dweud bod gwaith cartref yn helpu iddynt wella'u gwaith a bod digon o offer a chyfrifiaduron ar gael iddynt. Mae bron pob un o'r farn bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd. Yn ôl y rhan fwyaf o'r plant, mae plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Wil Williams	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Amanda Lawrence	Arolygydd Cymheiriaid
Gwenan Davies Jones	Enwebai'r Ysgol

Mae'r testun isod ar gyfer adroddiadau arolygiadau ysgolion a gynhelir yn unig – yn achos sectorau eraill, dylech roi gwybodaeth berthnasol ynghylch cefndir a sail ddeddfwriaethol yr arolygiad yn ei le

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11